**Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (SCHG)**
Gweithlu cynhwysol sy’n darparu’r gofal gorau

**Workforce Race Equality Standard (WRES)**
An inclusive workforce provides the best care

# Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu

# Asesiad Effaith Integredig

## Teitl y cynnig:

Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu

## Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig

Rob Green

Rebecca Gorman

Sara Whittam

Yr Athro Anton Emmanuel

## Adran:

Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a’r Blynyddoedd Cynnar (GIGCBC)

## Enw'r Pennaeth Adran/Uwch Swyddog Cyfrifol:

Rebecca Gorman

Uwch Swyddog Cyfrifol Emma Spear

## Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Eluned Morgan

## Dyddiad Dechrau:

Mai 2023

# Adran 1

# Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

## Cefndir

Yn ystod 2020 a 2021, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddrafft Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol yn dilyn galwadau gan gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac adborth a ddarparwyd drwy ymgynghoriad blaenorol ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru a chydnabyddiaeth bod methu â mynd i'r afael â hiliaeth yn bygwth y posibilrwydd i genedlaethau'r dyfodol fyw mewn Cymru amrywiol, ddiogel a chydlynus.

Yn ystod yr ymgynghoriad, y camau gweithredu iechyd a gafodd y nifer fwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad. Amlygodd yr ymatebion broblemau systemig yn GIG Cymru, gyda gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid[1] yn darparu tystiolaeth bod staff gofal iechyd du, asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru yn yr un modd yn profi hiliaeth gudd ac agored ac yn cael eu heffeithio mewn modd anghymesur gan weithdrefnau disgyblu. Roedd ymatebion pellach gan randdeiliaid i'r cyfnod ymgynghori hefyd yn amlygu'r hiliaeth mewn systemau. O ran gofal cymdeithasol, codwyd pryderon tebyg, ac amlygodd rhai ymatebion yr angen am strwythurau ychwanegol i sicrhau bod cyflogwyr yn atebol.

Roedd yn amlwg bod angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth yn y ffordd y mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ymgysylltu ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, fel staff ac fel pobl sy'n ceisio gofal a chymorth. Yn benodol, amlygodd ymatebion i'r ymgynghoriad yr hiliaeth a brofai staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, megis:

- Mae recriwtio a dyrchafu yn aml yn wahaniaethol tuag at grwpiau ethnig leiafrifol.
- Rhwystrau i staff ethnig leiafrifol rhag symud ymlaen i swyddi arwain a diffyg cynrychiolaeth ymhlith yr arweinyddiaeth.
- Methiant i herio iaith hiliol annerbyniol.
- Mae staff ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gael cwynion ffurfiol yn eu herbyn am faterion dibwys sy'n cael eu cyfeirio'n gyflym o'u cymharu â chydweithwyr gwyn.
- Mae cyfran uwch o staff ethnig leiafrifol yn adrodd am aflonyddu, bwlio neu gam-drin hiliol.

[1] Ogbonna, E. (2020). Grŵp cynghori BAME COVID-19 y Prif Weinidog: adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol. Adferwyd o: Adroddiad: is-Grŵp Economaidd Gymdeithasol COVID-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | LLYW.CYMRU

- Diffyg hyder wrth fynd i'r afael â hiliaeth/arferion hiliol gan yr holl staff a defnyddwyr gwasanaeth. Ni chymerir camau gweithredu pan fydd cwynion yn cael eu gwneud.
- Nid yw staff yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i ddarparu data ethnigrwydd.
- Nid yw staff yn teimlo'n ddiogel i godi llais yn erbyn gwahaniaethu ac arferion hiliol.
- Methiant i gofnodi digwyddiadau sy'n gysylltiedig â hil.
- Ni chaiff cyfran y cwynion a'r atgyfeiriadau disgyblu yn erbyn staff ethnig leiafrifol ei hadolygu'n rheolaidd.
- Nid yw'n glir pwy sy'n gyfrifol na ble mae atebolrwydd am gydraddoldeb hiliol y gweithlu yn gorwedd.
- Diffyg hyfforddiant gorfodol gwrth-hiliol priodol.

Roedd profiadau bywyd pobl o gefndiroedd Du Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn sail i'r nodau a'r camau gweithredu terfynol a gyhoeddwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mis Mehefin 2022, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r meysydd pryder a godwyd yn yr ymgynghoriad yn seiliedig ar y gwerthoedd canlynol:

- Bod yn agored ac yn dryloyw ym mhopeth a wnawn
- Defnyddio cryfderau profiadau bywyd wrth wneud penderfyniadau
- Mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau

Ymrwymodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd i sicrhau bod lefel briodol o adnoddau ar gael ar draws Llywodraeth Cymru, i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn. Mae cyllid ar gael, o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru, i gefnogi hyn.

Mae'r nodau a'r camau iechyd a gofal cymdeithasol yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol: 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' sy'n amlinellu ein gweledigaeth i gael 'dull system gyfan deg' sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles y gweithlu a chymunedau, ac ar atal salwch. Mae hyn yn ei dro yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nodau llesiant i Gymru.

Ar ben hynny, mae Cymru Iachach a'r Strategaeth Gweithlu sy'n deillio o hyn yn amlinellu ein dyhead bod y GIG yng Nghymru yn gyflogwr enghreifftiol o safbwynt llesiant gweithwyr, a bod rolau ym maes iechyd a gofal yn cynnig cyfleoedd gwaith i bobl sy'n cynnig boddhad ac sy'n werthfawr yn gymdeithasol. Rydym am ddenu ystod amrywiol o unigolion i yrfaoedd ym maes iechyd a gofal a chefnogi uchelgeisiau 'Cymru Gryfach, Decach, Wyrddach: Cynllun ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau' a galluogi'r GIG i weithredu fel cyflogwr allweddol yn yr economi sylfaenol ledled Cymru.

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn, mae angen data i fesur profiad y gweithlu o hiliaeth a gwahaniaethu yn gywir er mwyn sicrhau ymyriadau amserol, wedi'u targedu.

## SAFON CYDRADDOLDEB HIL Y GWEITHLU (SCHG)

Y GIG a'r Sector Gofal Cymdeithasol yw'r sector cyflogaeth mwyaf yng Nghymru gyda phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn gyfran sylweddol o'r gweithlu. Amlygodd pandemig COVID-19 y gwahaniaethau a'r anghydraddoldebau iechyd a gofal sy'n wynebu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn adnewyddu'r ymrwymiad i sicrhau bod ein staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel, cynhwysol, lle gallant fod yn hyderus o gefnogaeth i wireddu eu potensial ac o gynghreiriad gweladwy. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi mynediad i ddinasyddion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol at wasanaethau sy'n briodol i'w hanghenion, heb ofni hiliaeth a bydd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd hanesyddol.

Mae'r penodau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Cynllun yn cynnwys gweithredu i gyflwyno Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (SCHG) i Gymru. Mae hyn yn cydnabod bod gwaith casglu a dadansoddi data'r gweithlu wedi bod yn wan yn hanesyddol ac yn atal ein gallu i amlygu meysydd ar gyfer newid, gan roi newidiadau ar waith a'u mesur.

Yn 2014, cyflwynodd GIG Lloegr SCHG a ddaeth yn orfodol yng nghytundeb safonol y GIG ar gyfer ymddiriedolaethau iechyd yn Lloegr y flwyddyn ganlynol. Y bwriad oedd darparu data i ganiatáu i ymddiriedolaethau weithredu i gywiro anghydraddoldebau. Mae cydweithwyr o GIG Lloegr wedi gweithio'n agos gyda grwpiau cwmpasu a gweithredu SCHG i rannu eu profiadau wrth ddatblygu a gweithredu'r SCHG.

Bydd y SCHG yn mesur gwahaniaethau ym mhrofiad ein gweithlu Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o ran cynnydd, arweinyddiaeth, bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu. Bydd yn darparu sylfaen dystiolaeth i wneud newidiadau strwythurol wedi'u targedu a mesur y newidiadau hynny, a darparu a newid dylanwadau i greu gweithlu Cymru gwrth-hiliol yn y GIG a'r sector Gofal Cymdeithasol.

Cafodd y cynnig am SCHG i Gymru ei sefydlu mewn partneriaeth gymdeithasol a'i gyd-greu gyda staff iechyd a gofal Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Cymeradwywyd y cynnig ym mis Gorffennaf 2022 gan Dîm Cyfarwyddwyr Gweithredol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, ac mae'r cynnig yn cael ei weithredu mewn partneriaeth gymdeithasol gyda mewnbwn ar draws y GIG a Gofal Cymdeithasol. Drwy gyfrwng y SCHG, bydd swyddogion yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i greu amgylchedd mwy cynhwysol i'r gweithlu a sbarduno'r gwaith o gyflawni'r Nodau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn llwyddiannus. Bydd hyn yn ei dro yn gwella'r profiadau a'r canlyniadau i bobl sy'n ceisio gofal a chymorth.

# Adran 8: Casgliad

## Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae cyflwyno SCHG ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gam gweithredu ym mhenodau iechyd a gofal cymdeithasol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at weledigaeth y Cynllun, sef 'Cymru wrth-hiliol' a'r pwrpas sef 'Cydweithio i wneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.'

Mae cyflwyno SCHG yn ganlyniad i fandad cryf drwy'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y Cynllun Gweithredu gyda llawer yn nodi ansawdd gwael ac argaeledd data'r gweithlu o safbwynt ethnigrwydd.

Yn ystod 21-22, arweiniodd Grŵp Cwmpasu Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu drafodaethau mewn partneriaeth gymdeithasol i gytuno ar ddatblygu safon a fydd yn nodi a mesur cynnydd yng nghydraddoldeb hil gweithlu'r GIG a Gofal Cymdeithasol. Roedd y Grŵp Cwmpasu'n cynnwys unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol oedd yn cynrychioli'r gweithlu iechyd a gofal.

Bellach yn y cyfnod gweithredu, mae'r SCHG yn cael ei datblygu drwy weithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol a chanolbwyntio ar brofiadau bywyd ac arbenigedd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan weithrediad y SCHG.

Mae'r broses gyd-greu i ddatblygu'r SCHG wedi manteisio i'r eithaf ar ein gallu i gyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus[2] (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010), a'r cyfraniad i'n hamcanion llesiant a'n saith nod llesiant drwy geisio mynd i'r afael â gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

## Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae datblygu SCHG i Gymru yn allweddol i'n galluogi i fynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu a wynebir gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yn darparu data cyfoethog i alluogi sefydliadau iechyd a gofal i weithredu ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â gwahaniaethu a rhagfarn systemig a dwfn a cheisio dod â'r anfanteision sy'n wynebu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru i ben.

[2] Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, 2015, Cyrchwyd 3 Mawrth 2020

Bydd y data, a gesglir ac a adroddir ar sail Cymru gyfan, hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth gymdeithasol, weithredu prosiectau cenedlaethol a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar newid diwylliannol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, nid yn unig i'r gweithlu, ond hefyd i'r rhai sy'n ceisio gofal a chymorth. Bydd hyn yn lleihau anghydraddoldebau iechyd sy'n deillio o'r gwahaniaeth yn y ffyrdd y mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal ac yn ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal, a sut mae'r rhain yn llywio’r gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd a gofal.

Bydd mentrau o ganlyniad i ddata SCHG yn sbarduno ac yn cyfrannu at lawer o'r uchelgeisiau sydd gennym ar gyfer datblygu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau yng Nghymru fel yr amlinellir yn 'Cymru Iachach', Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y Gweithlu a 'Cymru Gryfach, Decach, Wyrddach: Cynllun ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau.' O ystyried rôl y GIG yng Nghymru fel sefydliad angor a chyflogwr mwyaf Cymru, mae dileu hiliaeth a gwahaniaethu yn allweddol i'w alluogi i gyflawni ei botensial o ran bod yn gyflogwr enghreifftiol ym maes iechyd a llesiant y gweithlu, a fydd, yn ei dro, yn gwneud y mwyaf o'i botensial o ran darparu gofal amserol ac o ansawdd i bobl Cymru. Bydd gan weithleoedd iechyd a gofal gwrth-hiliol gydweithwyr iach a chynhyrchiol a bydd ganddynt gyfraddau salwch ac absenoldeb is ac yn ei chael hi'n haws cadw staff.

### Plant a'u cynrychiolwyr.

Mae gwreiddiau anghydraddoldeb yn aml yn deillio o blentyndod a bydd sector iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'i wreiddio mewn gwrth-hiliaeth yn gwella cyfleoedd bywyd plant heddiw ac yfory. Er ei fod yn canolbwyntio ar weithlu iechyd a gofal cymdeithasol, bydd y SCHG yn sbarduno dull gweithredu gwrth-hiliol ehangach ar gyfer darparu gwasanaethau a fydd o fudd i bob plentyn a pherson ifanc gan gynnwys plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

### Pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Drwy gydol y cyfnodau cwmpasu a datblygu ar gyfer y SCHG, mae pwysigrwydd croestoriadedd mewn adroddiadau data wedi bod wrth wraidd yr ystyriaethau, yn unol ag egwyddorion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

# Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, yn lleihau neu’n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd cyflwyno SCHG ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant a bydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru.

Yn fwyaf amlwg, o ystyried nifer y bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, bydd yn hanfodol wrth greu Cymru fwy cyfartal, lle mae pawb yn cael cyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu llawn botensial ac yn gallu cyfrannu'n llawn at yr economi. Bydd hyn yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus a chydlynol. Bydd hefyd yn alluogwr allweddol i sicrhau Cymru Iachach drwy ddarparu data i gefnogi sefydliadau iechyd a gofal i sicrhau gofal a chymorth teg o’r radd flaenaf.

Yn ogystal, mae datblygiad y SCHG wedi bod yn unol â'r 'pum dull o weithio' yn adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn bwysicaf oll, drwy gyfranogiad a chydweithio, bydd profiad bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ganolog i ddatblygiad y SCHG.

Gellid gweld ffocws ar wrth-hiliaeth fel rhywbeth negyddol ac mae dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu i sicrhau dealltwriaeth o’r effeithiau cadarnhaol ehangach yn cael eu datblygu.

# Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan fydd yn dod i ben?

Nid yw Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (SCHG) yn brosiect â phen draw iddo; yn hytrach, mae'n safon barhaus sydd wedi'i chynllunio i asesu gwahaniaethau yn systematig yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol dros yr hirdymor. Er nad yw'r safon ei hun yn cael ei monitro na’i gwerthuso'n uniongyrchol, mae'n offeryn hanfodol at ddibenion o'r fath.

Mae'r SCHG yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol drwy ddefnyddio data o wahanol ffynonellau yn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys cofnodion Adnoddau Dynol, arolygon staff wedi'u teilwra i amcanion SCHG, data recriwtio a dilyniant gyrfa, yn ogystal â gwybodaeth sy'n ymwneud â chamau disgyblu a galluoedd staff.

Mae'r safon hon yn cynrychioli gwyriad sylweddol o adolygiadau cydraddoldeb blaenorol, drwy ddarparu tystiolaeth feintiol ochr yn ochr â naratif ansoddol o brofiad y gweithlu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae data’r flwyddyn gyntaf (2024) yn sefydlu'r gwaelodlin ar gyfer mesur cydraddoldeb hil yn y gweithlu. Mae'r blynyddoedd dilynol, fel Blwyddyn 2 (2025), yn nodi dechrau gwaith monitro a gwerthuso cynnydd sefydliadol yn sgil eu hymyriadau priodol. Erbyn Blwyddyn 3 (2026), gellir cynnal dadansoddiad manylach, gan archwilio gwelliannau dros nifer o flynyddoedd, gyda'r broses ailadroddol hon yn parhau am gyfnod amhenodol.

Dros amser, bydd y SCHG yn cronni data fydd yn ein galluogi i adnabod tueddiadau, a fydd yn grymuso sefydliadau i graffu ar eu systemau, polisïau a’u mentrau hyfforddi eu hunain i wireddu canlyniadau cadarnhaol parhaus. Ar ben hynny, bydd yn helpu i hwyluso cydweithredu ymhlith sefydliadau, gan ganiatáu iddynt fanteisio ar brofiadau a rennir a gwersi a ddysgwyd ar draws y sector i wella eu canlyniadau eu hunain.